Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd

Strategaeth a Ffefrir: Papur Cefndir ar Newid yn yr Hinsawdd

Hydref 2023



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol 4
Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 4
Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 4
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) 4
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 4
Cyd-destun Lleol a Thystiolaeth 5
Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol a Chynllun Newid yn yr Hinsawdd 5
Asesu ac Argymhellion 6
Polisïau Arfaethedig 6

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026 (CDLl) yn cynnwys y polisïau canlynol sy'n ymwneud â Newid yn yr Hinsawdd:

- SP1 Cynaliadwyedd
- GP1 Newid yn yr Hinsawdd

Mae geiriad polisi SP1 yn nodi:

"Bydd angen i gynigion wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu cynaliadwy drwy ganolbwyntio datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy ar dir llwyd o fewn ffiniau'r annedd. Asesir eu cyfraniad posibl o ran:

i) y defnydd effeithlon o dir;
ii) ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol ac eiddo gwag yn hytrach na safleoedd maes glas;
iii) darparu systemau trafnidiaeth integredig, yn ogystal ag annog cydleoli tai a defnyddiau eraill, gan gynnwys cyflogaeth, a fydd, gyda'i gilydd, yn lleihau'r angen cyffredinol am deithio, yn lleihau ar y defnydd o geir ac yn annog newid moddol at ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth;
iv) lleihau'r defnydd o ynni, gwella effeithlonrwydd ynni a defnyddio ffynonellau ynni carbon isel a di-garbon; v) lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff;
vi) lleihau'r risg o lifogydd, cynnydd yn lefel y môr ac effaith newid yn yr hinsawdd;
vii) gwella cyfleusterau, gwasanaethau a chydraddoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol mewn cymunedau presennol a chymunedau newydd;
viii) annog arallgyfeirio economaidd ac, yn benodol, gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol y ddinas a chanolfannau ardal;
ix) cadw, gwella a chysylltu seilwaith gwyrdd, gan ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;
x) cadw a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau fel dŵr a mwynau."

Mae geiriad GP1 yn nodi:

"Dylai Cynigion Datblygu:

(i) gael eu dylunio i wrthsefyll y newidiadau a ragwelir yn yr hinsawdd leol a lleihau'r risg o lifogydd ar y safle ac mewn mannau eraill drwy ddangos, lle bo'n briodol, fod risgiau a chanlyniadau llifogydd yn gallu cael eu rheoli'n dderbyniol, gan gynnwys osgoi defnyddio arwynebau caled anathraidd;
(ii) cael eu dylunio i leihau gofynion ynni a chynnwys ffynonellau ynni adnewyddadwy, carbon isel neu ddi-garbon priodol, gan gynnwys darpariaeth ynni ar y safle lle bo hynny'n ymarferol;
iii) cael eu dylunio i ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau adeiladu cyfredol ar y safle;
iv) bodloni'r BREEAM neu'r cod cartrefi cynaliadwy perthnasol."

Mae cyd-destun newid yn yr hinsawdd wedi newid ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2015. Datganodd Cyngor Dinas Casnewydd argyfwng hinsawdd ac ecolegol yn 2019 ac wedi hynny mae wedi mabwysiadu'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'r Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) i ddechrau mynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol ac mae'r angen i fynd i'r afael â'r achosion a'r effeithiau a meithrin gwytnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn hanfodol bwysig ledled Casnewydd, De-ddwyrain Cymru a Chymru gyfan.

Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Mae PCC yn diffinio datblygu cynaliadwy ac yn ceisio cefnogi cymunedau newydd iach trwy weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) (DLICD) drwy greu lleoedd cynaliadwy. Mae Adran 3.3 yn nodi sut mae'r system gynllunio yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd trwy ddatgarboneiddio'r system ynni a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, tra'n mynd i'r afael â'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth a ddatblygwyd i newid Cymru yn gymdeithas carbon isel.

Mae adran 3.4 yn nodi gofyniad i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) hyrwyddo strategaethau gofodol cynaliadwy a defnyddio 'dilyniant chwilio safleoedd' sy'n hyrwyddo datblygu yn y lleoliadau mwyaf addas; sef y rhai sy'n wydn i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac sy'n galluogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau.

Argymhellir bod datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflawni drwy'r 'pum ffordd o weithio' sydd wedi'u hymgorffori yn yr egwyddorion allweddol a nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy yn cael eu hamlinellu a dylent gefnogi'r broses o wneud cynlluniau a gwneud penderfyniadau.

Nodir bod newid yn yr hinsawdd yn berthnasol i sawl maes pwnc drwy gydol y ddogfen gan gynnwys; defnyddio a rheoli adnoddau, diogelu'r amgylchedd, trafnidiaeth, Seilwaith Gwyrdd, ynni, dylunio adeiladau, bioamrywiaeth, perygl llifogydd, ac ardaloedd arfordirol.

Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

Mae tudalennau 45-51 yn ymwneud yn benodol â heriau newid yn yr hinsawdd yng Nghymru ac yn cynnwys amcanestyniadau lefel genedlaethol ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd heb weithredu yn ogystal â rhagamcanion ar leihau carbon yn seiliedig ar dueddiadau allyriadau. Mae'r ddogfen yn rhan o'r cynllun datblygu cenedlaethol ac yn ceisio cefnogi datgarboneiddio, ynni adnewyddadwy a lleoedd iach fel rhan o'r saith dangosydd adolygu.

Mae Polisi 2 yn darparu'r cyd-destun polisi cynllunio cyffredinol ar gyfer creu lleoedd strategol ac mae'n amlinellu egwyddorion creu lleoedd strategol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor a chyrff penodedig eraill i gyflawni datblygu cynaliadwy a gwella lles Cymru yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod lles ar waith sy'n cwmpasu gweledigaeth i wella lles gan gynnwys ymdrechu i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn y ddeddfwriaeth yn golygu bod yn rhaid i sefydliad weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Mae set o 46 o ddangosyddion cenedlaethol wedi'u sefydlu i fonitro cynnydd yn erbyn y nodau lles.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd yn dangos sut y gellir gweithredu blaenoriaethau'r Cenhedloedd Unedig ar lefel genedlaethol a rhanbarth gan gynnwys targedau newid hinsawdd, dyletswydd bioamrywiaeth a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn nodi gostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050. Ers hynny, mae'r targed hwn wedi'i ddiwygio a'i gynyddu i 100% erbyn 2050.

Nod Deddf yr Amgylchedd yw dod o hyd i ffordd o sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol tra'n parhau i ateb heriau creu swyddi, tai a seilwaith i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Cyd-destun Lleol a Thystiolaeth

Datganiad Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol a Chynllun Newid yn yr Hinsawdd

Pasiodd Cyngor Dinas Casnewydd gynnig yn 2021 yn datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Roedd hyn ddwy flynedd ar ôl i Lywodraeth Cymru ddatgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019. Fel rhan o'r datganiad hwn, nod y Cyngor yw lleihau ei allyriadau sefydliadol i sero net erbyn 2030 a darparu cymorth i bartneriaid a thrigolion yng Nghasnewydd i'w hannog i leihau eu hallyriadau carbon eu hunain. Fel rhan o'r datganiad, mae'r Cyngor yn anelu at:

- Ddatblygu cynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol clir, mewn ymgynghoriad â dinasyddion, dros y pum mlynedd nesaf (2022-2027) a fydd yn nodi'r camau y byddwn angen eu cymryd i gyflawni hyn.
- Datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ledled y ddinas, mewn cydweithrediad ag arbenigwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu atebion arloesol i ddatgarboneiddio gwres, trydan a thrafnidiaeth leol a gwireddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol.
- Gweithio gyda phartneriaid Casnewydd yn Un a'r cyhoedd i ddatblygu strategaeth hinsawdd ledled y ddinas i alluogi carbon sero-net ledled y ddinas ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd erbyn 2050 ac integreiddio arfer ecolegol gorau ym mhob maes o weithgarwch y Cyngor.

Cyhoeddwyd y Cynllun Newid yn yr Hinsawdd pum mlynedd cychwynnol yn 2022 ac mae'n nodi'r blaenoriaethau a'r camau y mae angen i'r Cyngor eu cymryd i gyflawni'r cynllun hwn. Fe'i rhennir yn chwe thema allweddol gan gynnwys Adeiladau, Tir, Trafnidiaeth a Symudedd, Diwylliant ac Arweinyddiaeth Sefydliadol, Nwyddau a Gwasanaethau a rôl ehangach y Cyngor.

Mae'r argymhellion a'r camau gweithredu canlynol wedi'u nodi o'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd:

- Adolygu polisi A106 i gynnwys tir sy'n addas i gefnogi gweithgaredd newid yn yr hinsawdd
- Sicrhau bod Symudedd a Thrafnidiaeth yn brif faes pwnc y CDLl newydd.
- Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd teithio cynaliadwy.
- Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a chanllawiau cynllunio eraill i gryfhau polisïau teithio cynaliadwy.
- Nodi targed ynni adnewyddadwy ar gyfer Casnewydd a sicrhau bod digon o dir yn cael ei ddyrannu i gyrraedd y targed hwnnw.
- Annog datblygiadau i gynnwys rhwydweithiau gwres lleol o fewn datblygiadau mawr.
- Annog ein partneriaid i symud tuag at ddatblygiadau carbon niwtral newydd sy'n ystyried natur ac argyfwng yr hinsawdd ac yn ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur.
- Sicrhau bod datblygwyr yn bodloni gofynion perygl llifogydd cenedlaethol ar gyfer datblygiadau newydd.
- Adolygu dogfennau CCA perthnasol, gan gynnwys CCA Ansawdd Aer / CCA Teithio Cynaliadwy / CCA Bywyd Gwyllt a Datblygiad yn unol â'u hamserlenni adolygu. (Mae'r CCA Ansawdd Aer presennol yn ymwneud yn bennaf â chynnal Asesiadau Ansawdd Aer ac mae angen iddo nodi gofyniad craidd ar ben hyn ar gyfer boeleri gwrth-segura, allyriadau isel, gwefru cerbydau trydan ac ati)

Asesu ac Argymhellion

Mae angen adolygu SP1 i adlewyrchu'r agenda creu lleoedd a sicrhau nad yw'r polisi'n dyblygu meysydd polisi eraill. Mae agweddau ar y polisi hwn y gellid ymdrin â nhw orau o bosibl gan bolisïau eraill yn seiliedig ar bwnc o fewn y CDLIN. Fodd bynnag, mae cynnal polisi Datblygu Cynaliadwy a Creu Lleoedd trosfwaol yn bwysig wrth gyflawni strategaeth y CDLIN. Mae'r polisi fel y'i hysgrifennwyd ar hyn o bryd yn eang o ran ei gwmpas. Mae rhai cyfyngiadau wrth asesu llwyddiant gweithredu polisïau, felly mae cyfle i'r polisi gael ei fireinio a'i ddiwygio ac adlewyrchu newidiadau i bolisi cenedlaethol trwy integreiddio creu lleoedd a dylunio cynaliadwy i eistedd ochr yn ochr â gweledigaeth ac amcanion y CDLIN ac integreiddio cysylltiadau hanfodol â'r Cynllun Lles lleol.

Mae gan SP2 gysylltiadau â chreu lleoedd yn ogystal â'r strategaeth ofodol. Mae potensial i ystyried sut mae iechyd yn cysylltu ag ansawdd aer a seinwedd, diogelu'r amgylchedd, ac amwynder cyffredinol. O'r herwydd, rhoddwyd ystyriaeth i ymgorffori SP2 ym mholisi Creu Lleoedd Cynaliadwy. Fodd bynnag, ystyrir bod hyn yn amhriodol ar hyn o bryd gan ei bod yn annhebygol y byddai'r dull hwn yn mynd i'r afael â materion iechyd yn briodol ac y gallai ehangu cwmpas SP1 yn wrthgynhyrchiol.

Bydd GP1 yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r datganiad o argyfwng hinsawdd. Mae potensial i hyrwyddo'r polisi i bolisi strategol er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd yr angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy ddatblygiadau newydd, gan gynnwys lliniaru, addasu a gwydnwch. Yn yr un modd â SP1, mae agweddau ar y polisi y dylid mynd i'r afael â nhw o dan feysydd pwnc. Mae'n ymddangos bod angen polisi strategol trosfwaol wrth hyrwyddo'r ystyriaethau hyn ac integreiddio cysylltiadau hanfodol â Chynllun Newid yn yr Hinsawdd Casnewydd.

Mae newidiadau y gellir eu gwneud i GP1 yn ymwneud ag alinio'r maen prawf polisi â'r Cynllun Newid yn yr Hinsawdd. O ran creu lleoedd, mae targedau hinsawdd yn ymwneud â thrafnidiaeth, perygl llifogydd, carbon isel, ac ynni adnewyddadwy. Felly, mae'r Cynllun Gweithredu Newid yn yr Hinsawdd yn rhan allweddol o'r dystiolaeth sy'n sail i'r polisi hwn, tra bod materion manwl i'w trafod drwy bolisïau rheoli datblygu manwl. Mae datblygiadau sy'n gwrthdaro â'r polisi hwn yn debygol o fod yn groes i dargedau Cynllun Newid yn yr Hinsawdd Casnewydd ac felly'n amhriodol, fodd bynnag, bydd polisïau manwl a chanllawiau atodol yn nodi sut y dylid mynd i'r afael â'r rhain drwy gynigion datblygu.

Polisïau Arfaethedig

Cynigir bwrw ymlaen â'r geiriad polisi canlynol:

Creu Lleoedd a Dylunio Cynaliadwy

> *Bydd angen i bob cynnig datblygu newydd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy i gefnogi dyluniad o ansawdd uchel, iechyd a lles cymunedau. Byddant yn cael eu hasesu yn ôl eu cyfraniad tuag at y canlynol:*

- *Dyluniad o ansawdd uchel, sy'n gynhwysol ac yn hygyrch, gan ddiwallu anghenion llawn y cymunedau presennol a rhai'r dyfodol, tra'n diogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol.*
- *Dull a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd, sy'n cael ei lywio gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd y Cyngor.*
- *Defnydd effeithlon o dir, sy'n cefnogi cymysgedd o ddefnyddiau ar ddwysedd priodol.*

- *Bodloni ystod o anghenion tai drwy'r cymysgedd priodol o fathau o dai a deiliadaethau.*
- *Dull dylunio sy'n seiliedig ar leiniau, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer lleiniau bach, gan gynnwys cynlluniau personol a hunan-adeiladu.*
- *Cefnogi teithio llesol o fewn cymunedau drwy sicrhau bod strydoedd yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn bleserus a bod datblygiadau yn cynnig mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus ac ystod o gyfleusterau o fewn pellter cerdded i'r rhan fwyaf o breswylwyr.*
- *Blaenoriaethu mynediad a symudedd trwy drafnidiaeth gynaliadwy a llesol ar draws y ddinas, trwy integreiddio llwybrau a systemau a lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat ar gyfer teithiau byr.*
- *Annog arallgyfeirio economaidd ac, yn benodol, gwella bywiogrwydd a dichonoldeb canol y ddinas a chanolfannau ardal;*
- *Cefnogi a chynnal twf hirdymor y Gymraeg.*
- *Osgoi niwed annerbyniol i iechyd o ganlyniad i halogiad tir, ansawdd aer, sŵn, golau neu lifogydd.*

Newid yn yr Hinsawdd

Rhaid i bob cynnig datblygu wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at liniaru, addasu a datblygu gwytnwch i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'n rhaid i gynigion ystyried yr angen i:

- *osgoi datblygiadau mewn ardaloedd yr aseswyd eu bod mewn perygl o lifogydd a, lle na ellir osgoi'r lleoliadau hyn, rhaid dylunio'r datblygiad mewn ffordd sy'n lleihau risgiau ac sy'n gwrthsefyll llifogydd;*
- *cyflawni datblygiad adeiladu carbon isel/di-garbon, gan gynnwys dylunio adeiladau mewn ffordd sy'n lleihau'r defnydd o ynni ac yn ymgorffori ffynonellau ynni adnewyddadwy, isel neu ddi-garbon, gan gynnwys darpariaeth ynni ar y safle;*
- *ymgorffori rhwydweithiau gwres lleol a gwresogi carbon isel, fel pympiau gwres;*
- *mabwysiadu arferion adeiladu cynaliadwy, gan gynnwys ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau adeiladu sydd eisoes ar y safle neu ddefnyddio deunyddiau lleol;*
- *gwella mynediad cynaliadwy trwy ddylunio gofodol, cysylltedd digidol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy;*
- *integreiddio seilwaith gwefru cerbydau trydan a seilwaith cerbydau allyriadau sero ar y safle;*
- *manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Seilwaith Gwyrdd fel rhan o atebion sy'n seiliedig ar natur wrth gynyddu gwytnwch y safle;*
- *lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff; a*
- *sicrhau defnydd cynaliadwy ac effeithlon o ynni ac adnoddau fel tir, dŵr a mwynau.*